

## CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun**, 10fed Mehefin, 2019, yng Nghanolfan Bryn croes (newid lleoliad ar y noson), o 7.30 p.m. hyd 8.30 p.m.

*Presennol:* Y Cyngorydd Glyn Roberts (Cadeirydd)

Y Cyngorydd Elin Hughes (Is-Gadeiryddes)

Y Cyngorwyr Gwenan Griffith, Dylan Parry Jones, Ifor Owen, Michael Strain, Siôn Williams

*Ymddiheuriadau:* Y Cyngorwyr Carys H. Evans, Carys E. Williams, Glenys Williams

Y Cyngorydd Gareth Williams, Y Cyngorydd Sir

### 16. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

**Oherwydd** amgylchiadau bu'n rhaid newid lleoliad y man cyfarfod a diolch i'r Cadeirydd am agor y Ganolfan ym Mryn croes er hwylustod.

### 17. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Nid oedd gan unrhyw aelod ddiddordeb yn yr eitemau oedd i'w trafod.

### 18. **CADARNHAU COFNODION**

**Cyflwynwyd**, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor 10fed Mehefin, 2019, gan ychwanegu enw'r Cyngorydd Glenys Williams at y rhai oedd yn bresennol.

#### **MATERION YN CODI**

##### **(a) Eitem 10 – O Ddrws i Ddrws**

**Nid oedd** ateb swyddogol i law gan Mrs. Meinir Jones o O Ddrws i Ddrws.

##### **(b) Eitem 13 – Materion Ffyrdd a Llwybrau**

**O berthynas i gymal (c)** yr arwydd am yr Eglwys ym Mryn croes, adroddodd y Clarc iddi dderbyn llyfryn wedi ei baratoi gan Blwyf Eglwysi Bro Madryn yn nodi enw'r Eglwys fel 'Eglwys Santes Mair Bryn croes.' Yn wyneb hyn **penderfynwyd** anfon yr enw swyddogol ymlaen i Martin Daniel Williams, Cymhorthydd Technegol Cyngor Gwynedd gan ofyn am bris terfynol am yr arwydd.

**(Noder** – enw ar yr arwydd felly fydd 'Eglwys Santes Mair ac yn y Saesneg St. Mary's Church.')

### 19. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

**Cyflwynwyd** y ceisiadau a ganlyn

(a) Cais C19/0456/32/LL – ymestyn storfa slyri a thail ac adeiladu to uwchben – Bod Gaeaf Uchaf, Bryn croes.

- (b) Cais C19/0503/32/LL – adeiladu sied amaethyddol rhwng dwy sied bresennol i greu lle bwydo dan do – Fferm Gelliwig, Botwnnog.

**Penderfynwyd** cefnogi'r ddau gais.

## 20. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**

- (a) **Penderfynwyd** anfon at Beiriannydd Ardal Dwyfor, Cyngor Gwynedd, gan ofyn iddo :

Drefnu i farbio'r corneli er diogelwch ar Ffordd Cefn Amwlch.

Farbio'r cloddiau ar gyffordd Siop y Bont, Llangwinnadl, oherwydd y diffyg gwelediad.

Pa bryd mae'r tymor barbio yn cychwyn.

- (b) **Penderfynwyd** gofyn i Mr. J.A. Pozzi farbio'r ddwy gampa a llwybr Pengopa, Bryn croes.

## 21. **MATERION IECHYD**

Nid oedd unrhyw fater wedi dod i sylw'r Cyngor i'w anfon ymlaen at Gyngor Iechyd Cymunedd Gogledd Cymru.

**Soniodd** aelod ei fod wedi cael cwyn gan aelod o'r cyhoedd ei fod ef/hi wedi ceisio mynd drwodd i'r Feddygfa am amser maith ac na fu i'r alwad gan ei hateb. Cyn mynd a'r mater ymlaen at Reolwr y Feddygfa gofynnwyd am fwy o wybodaeth.

## 22. **AWDURDOD I DALU**

**Awdurdodwyd** y taliadau a ganlyn:

Y Clarc	£372.75
HMRC	£ 93.00

## 23. **ARCHWILIAD MEWNOL**

**Cyflwynwyd** adroddiad yr Archwiliwr Mewnol – copi wedi ei hafnon i bob aelod gyda'r rhaglen. Hefyd ffurflen archwilio sydd i'w hanfon at y BDO – eto copi wedi ei anfon at bob aelod gyda'r rhaglen.

- (a) **Adroddiad** yr Archwiliwr Mewnol

O berthynas i gymal 3 – barn yr archwiliad – trafodwyd y pum pwynt fel a ganlyn:

- "Camweinyddiaeth ariannol yn deillio o fethiant i sicrhau bod y Rheolau Sefydlog a'r Rheoliadau Ariannol yn gyfredol"  
Adroddodd y Clarc fod y Rheolau wedi eu mabwysiadu yn ol ar 13eg Mawrth, 2017, ac fod trefniadau mewn llaw i'r Cadeirydd ar y pryd, Y Cyngorydd Glenys Williams, a'r Is-Gadeirydd sydd bellach yn Gadeirydd y Cyngor, Y Cyngorydd Glyn Roberts, i roi sylw i'r Rheolau a dod yn ol i'r Cyngor os byddai angen newidiadau/ychwanegiadau. Yn anffodus nid yw hyn wedi digwydd eto ond bydd yn digwydd yn ystod y mis ddau nesaf.
- "Colledion yn deillio o fethiant i adnabod a chofnodi risgiau mewn asesiad risg blynyddol"

Eto mae hyn yn barhad o'r uchod pryd y mabwysiadwyd yr Asesiad Risg ar 13eg Mawrth, 2017, a'r Cynghorwyr Glenys Williams a Glyn Roberts i'w hadolygu ac adrodd yn ol i'r Cyngor. Bydd hyn eto yn cael ei wneud yn ystod y mis ddau nesaf.

- “Methiant i baratoi cyllideb flynyddol”  
Adroddodd y Clarc ei bod yn bryderus ynglyn a hyn gan ei bod, yn ei thyb hi, yn paratoi dogfen flynyddol ac hefyd yn paratoi taenlen yn fisol yn dangos yr incwm a'r gwariant. Yn dilyn gair a'r Archwiliwr dyma'r atebiad:  
“Pwynt 3 - rwyf wedi edrych yn ôl dros fy rhaglen waith, mi welais y taenlenni misol gyda manylion yr incwm a'r gwariant ond mae cyllideb wahanol mae cyllideb yn gynllun ariannol am y flwyddyn, sy'n cael ei bennu cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. Rwyf wedi atodi enghraifft o gyllideb i'ch sylw.” (fel a ganlyn)

## 2019-20

### INCWM

<b>Praesept</b>	X
Ad-daliad TAW	X

### GWARIANT

Cyflog y Clerc	X
Treth/Yswiriant Gwladol	X
Archwilwyr	X
Aelodaeth	X
Yswiriant y Cyngor	X
Torri Llwybrau	X
Amrywiol	X

- “Rol, cyfrifoldebau a chydabyddiaeth y Clarc heb eu dogfennu mewn cytundeb llawn”  
Eto gwnaed ymholiadau gyda'r Archwiliwr gan fod copi o'r Gytundeb yn y ffeil a dyma'r atebiad:  
Copi o'ch Swydd Ddisgrifiad oedd hwn, roeddwn yn edrych am gopi o'ch cytundeb cyflogaeth (cynnwys manylion cyflog, oriau gwaith, gwyliau blynyddol a.y.b.)
- “Methiant i adnabod manylion llawn asedau'r Cyngor mewn cofrestr sy'n cyd-fynd a'r gofynion.”  
Yn dilyn ymholiad pellach cafwyd yr atebiad isod:  
“Pwynt 5 - Wrth wirio cofrestrau asedau rydym yn edrych am y canlynol; yr ased, y dyddiad daeth yr ased i feddiant y Cyngor, gwerth cyfredol yr asedau a'u gwerth pan fe'u cafwyd a'u lleoliad. Mae aelod o'r tîm Archwilio wedi creu templed cofrestr “asedau, atodaf gopi ohono i'ch sylw.” Ar gael fel atodiad i'r cofnodion – Atodiad ‘A1’

**Penderfynwyd** nodi adroddiad yr Archwiliwr Mewnol a gweithredu'n unol a'r cyfarwyddiadau.

## (b) Ffurflen Flynyddol y BDO

**Cyflwynwyd** y ffurflen flynyddol sylwyd nad oedd y ffigyrau ar gyfer 31 Mawrth, 2018 yr un ffigyrau ag oedd ar y ffurflen flwyddyn ddiwethaf a chyfeiriwyd yn benodol at rif 6, 7, 9 ag 11.

**Dyma atebiad yr Archwiliwr:**

“Wrth i gysoni’r ffigyrau daeth i’r amlwg bod taliad o £75 (rhif siec 200624) heb ei gynnwys yng nghyfanswm taliadau ar y ffurflen flynyddol ar gyfer 2017/18 felly mi wnes i ailddatgan y cyfrifon h.y. ychwanegu’r £75 i’r ffigwr yng ngholofn 6, ac o ganlyniad mae wedi effeithio ar y ffigyrau yng ngholofnau 7, 9, ac 11”.

Hefyd tynnwyd sylw mai’r union cyflog ‘roedd y Clarc wedi ei dderbyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf ond eto ‘roedd codiad o £11 yn cael ei ddangos ar y ffurflen o dan gymal 4 (tudalen 2 o’r ffurflen).

**Dyma atebiad yr Archwiliwr:**

“O ran y costau staff, mae’r arweiniad rydym wedi derbyn blwyddyn yma yn wahanol i llynedd., rydym nawr yn cynnwys y canlynol fel costau staff, cyflog, taliadau TWE/YG, taliadau pensiwn, costau teithio, costau parcio a chostau aelodaeth (SLCC). Rwyf wedi cynnwys swm o £10.80 costau teithio yng nghostau staff ar gyfer 2018/19 a dyma yw’r gwahaniaeth.”

Ymhellach i hyn gofynnodd y Clarc i’r Archwiliwr a fydda’r BDO angen esboniad am hyn a dyma’r atebiad:

“Mi fydd y BDO yn gweld bod cyfrifon 2017/18 wedi eu hail-datgan gan fy mod wedi cofnodi hyn ar dop y ffurflen, os ydynt eisiau esboniad amdano mae’n debyg y gwnânt eich holi ymhellach amdano, ond os ydych eisiau rhoi eglurhad mae croeso i chi wneud gan ei fod yn dangos eich bod yn dryloyw.

Dwi’n amau fy mod wedi gwneud camgymeriad gyda’r £10.80 os yw’n gostau teithio un o’r Cynghorwyr, dylai’r costau staff gynnwys costau sy’n berthnasol i staff yn unig ac felly costau teithio staff yn unig. Ond gan mai £10 yw hyn nid wyf yn credu y byddent yn codi’r mater ymhellach gyda chi.”

**Penderfynwyd** yn wyneb yr esboniadau uchod i dderbyn y ffigyrau ar dudalen 2 o’r ffurflen flynyddol, ateb yr wyth cwestiwn ar dudalen 3 gan nodi ‘Do’, cwestiwn 9 yn ‘amh’.

**Awdurdodwyd** y Cadeirydd i arwyddo’r ffurflen ar ran y Cyngor eu bod yn cymeradwyo’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.